Duw y Greadigaeth

Adnodau agoriadol:

"Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a'r ddaear.....Gwelodd Duw y cwbl a wnaeth, ac yr oedd yn dda iawn." *Genesis 1: 1, 31.*

"Oni wyddost, oni chlywaist? Duw tragwyddol yw'r Arglwydd a greodd gyrrau'r ddaear; ni ddiffygia ac ni flina, ac y mae ei ddeall yn anchwiliadwy." *Eseia 40: 28.*

Geiriau agoriadol:

Y mae datgan bod Duw yn Greawdwr yn cyfeirio nid yn unig at ei waith yn y dechreuad yn dwyn y byd a'r bydysawd i fod, ond hefyd at ei waith yn y presennol.
Y mae creu ac ail-greu bywyd yn ei holl ffurfiau a'i wahanol rywogaethau yn weithgarwch parhaus. Am mai Duw creadigol, gweithgar ydyw, y mae'n cyson arwain, achub ac adfer ei fyd.
Yn dawel ac ystyriol, sylwch ar bob arwydd o'ch cwmpas a cheisiwch ymdeimlo â gweithgaredd creadigol Duw ynoch ac o'ch amgylch.....

Gweddi:

Dduw ein Creawdwr,
diolchwn i ti am ddwyn trefn o anrhefn,
a goleuni o dywyllwch,
ac am i ti ein gwneud ninnau
ar dy lun a'th ddelw dy hun
a gwneud y byd yn llawn cyfoeth
ac amrywiaeth ar ein cyfer.
Gwna ni'n stiwardiaid cyfrifol
o'th holl roddion
ac yn gydweithwyr â thi
yn y deyrnas. Amen.

Emyn: 100 Caneuon Ffydd.

Gweddi:

Arglwydd,
mi fues i yn ôl f'arfer
yn yr oedfa ddoe.
Sôn am wgu.
Pawb yn edrych arna i.
Pam?
Dim tei.
Dim siaced.
Y beirniadu tu ôl i'm cefn.
Roeddwn i'n meddwl
mai'r addoliad oedd yn bwysig.
Na, mae cydymffurfio'n bwysicach.
Cydymffurfio.
Gwneud pethau yn union yr un fath a phobl eraill.
Dyna mae'r byd eisiau.
Llywodraethau, busnesau, trefnyddion.
Dydi hyd yn oed y cyfrifiadur
ddim wedi'i raglennu i ddelio ag unigolion
a'r rheiny'n wahanol.
Mae'n rhaid i ni gyd fod yr un fath.
Pawb yn gwisgo gwasgod cydymffurfiaeth.
Diolch i ti, trwy dy greadigaeth, am ein gwneud
yn wahanol.
Mae'n debyg y byddai'r creu, dipyn symlach,
petae ti wedi defnyddio'r un arlliw o wyrdd.
Eisteddais i edrych ar wyrddni ddechrau'r gwanwyn,
y fath amrywiaeth
y gwyrdd tyner
y gwyrdd golau
y gwyrdd cynnes
y gwyrdd trwm
y gwyrdd tywyll.
Dyna harddwch oedd
yr amrywiaeth.

Dyna sy'n rhoi blas ar fyw.
Mor ffôl fuasai ail beintio'r cyfan
yn un lliw.
Diflas fyddai'r greadigaeth.
Difywyd
a'r asbri wedi mynd.
Boed i ni
lawenhau yn yr amrywiaeth.
Amrywiaeth ym myd natur.
Amrywiaeth ym myd pobl.
Maddau i ni
am wadu amrywiaeth
y bersonoliaeth ddynol,
a gwna ni'n bobl sy'n
fwy mentrus i
dderbyn a
chofleidio'r
amrywiaeth.

Ac os byddai'n mynd i'r capel
y Sul nesaf,
heb dei,
helpa weddill y gynulleidfa
i sylweddoli fod pobl yn wahanol
a bod dy addoli di
yn bwysicach na dim. Amen.

Cydadrodd neu gydganu Gweddi'r Arglwydd:

Darllen: Salm 8

Emyn: 104 Caneuon Ffydd

Munud i feddwl:

Yn hanes creadigaeth y byd, yn ôl llyfr Genesis, diweddglo pob diwrnod yw, "A gwelodd Duw fod hyn yn dda." Mae Duw wedi creu byd da. Mae Duw yn dal i greu. Nid creu'r byd a gadael iddo wnaeth Duw. Mae Duw, yn ei fyd, yn cyflawni ei fwriadau heddiw. Mae'r elfennau o'r Greadigaeth yn esgor ar ddwy wedd ym mywyd y Cristion. Yr elfen o blygu mewn addoliad ac o dorchi llewys mewn gwaith. Mae prydferthwch y Cread yn arwain dyn i blygu mewn addoliad gerbron y Crëwr a chydnabod mai ei fyd ef yw hwn. O gydnabod hyn caiff dyn ei alw i gydweithio â'r Crëwr i ofalu a gwarchod y byd. Mae dyn ar hyd yr oesoedd wedi osgoi hyn ac wedi tra- arglwyddiaethu, a thrwy hynny, wedi difetha, rheibio a gwneud llanast di ben draw. Er bod y Beibl yn pwysleisio stiwardiaeth dyn, anwybyddu hyn a wnaethpwyd yn y gorffennol. Clywid hyn yn aml yng ngweddïau cyhoeddus yr eglwysi pan fyddai'r gweddïwyr yn cyhoeddi eu bod wedi bod yn ymhél â phethau'r byd ond yn awr wrth orsedd gras, rydym yn troi at dy bethau di. Mae gormod o bwyslais wedi bod ar y seciwlar ar y naill llaw a'r ysbrydol ar y llaw arall, yn hytrach na cheisio deall neges y Beibl sy'n gwbl sicr fod pethau'r byd yn bethau Duw. Gwae'r rhai sy'n dilorni'r byd. Yn y byd yr ydym yn byw a chreadigaeth Duw yw'r byd – "A gwelodd Duw fod hyn yn dda."

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio:

Gweddi:

Clod i ti, O Dduw nerthol, am holl ryfeddodau'r cread.
Clod i ti am y tir a'r môr;
am ffrwythlondeb pridd, amrywiaeth blodau,
eu lliwiau a'u persawr,
am gadernid coed
a golud bywyd y fforestydd.
Eiddot ti ddirgelion y moleciwl ac ysblander cysodau'r sêr.
Diolch i ti am bopeth byw,
am anifeiliaid ac adar,
am ymlusgiaid a phryfetach
ac am amrywiaeth syfrdanol y rhywogaethau.
Mawrygwn di am rythmau'r tywydd,

am heulwen a glaw, tes a rhew,
gwlith ac eira, y gwynt nerthol a'r awyr dyner.
Llenwaist ein clustiau â seiniau'r greadigaeth:
sisial ffrwd ar gerrig,
trymru'r môr ar draeth, trydar yr adar, clec y daran
ac amrywiol gynganeddion y gwynt.
A thi a greodd ryfeddod corff ac ymennydd dyn.
A chydnabyddwn ein bod wedi ein gosod gennyt ar y blaned hon,
nid i'w hanrheithio a'i difetha,
ond i ddwyn cyfrifoldeb drosti o dan dy lywodraeth di,
Arglwydd y cread.
Dysg ein cenhedlaeth ni i fawrygu'r fraint honno
gan ddiogelu ffrwythlonder y ddaear,
a chydnabod mai dy drefn di yn unig
a sicrha degwch i blanhigion ac anifeiliaid ac i blant dynion.
Greawdwr daionus, cynysgaedda ni â doethineb.
Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist. Amen.

R. Tudur Jones, Gweddïo 1992

Emyn: 101 Caneuon Ffydd.

Anerchiad:

Llais 1

Neithiwr, wrth edrych ar awyr y nos a gweld y sêr a'r planedau, dyma ddechrau meddwl, "os gwn i faint sydd yna ohonyn nhw?" A meddwl pa mor bell ydyn nhw o'n daear ni? Y seren agosaf atom ni ydi'r haul, sy'n 93 o filiynau o filltiroedd i ffwrdd ac eto mae gwres a goleuni'r seren hon yn creu bywyd ar y ddaear. Heb yr haul fasa 'na ddim bywyd o gwbl ar y ddaear. Ac o gymharu ein daear â phlanedau eraill, mae'r ddaear yn gwbl wahanol. Petaen ni'n gallu mynd i'r gofod a chael cip ar yr holl blanedau sy'n cylchdroi o gwmpas yr haul fe welwn fod yna liwiau amrywiol ar y ddaear; lliwiau'r cefnforoedd, y tir a'r cymylau ac wrth gwrs mae bywyd ar y ddaear. Nwyon, a llawer o'r rheiny'n wenwynig sy'n amgylchynu'r planedau eraill a dim sôn, hyd y gwyddom, am fywyd. Ar y ddaear mae bywyd yn cyniwair ymhob man – yn

nyfnderoedd yr eigion, yng nghrastir yr anialwch a hyd yn oed yng ngerwinder y pegynau. Ai damwain ydi'r cyfan i gyd? Dowch i ni edrych, yn fanylach drwy'r chwyddwydr. Edrychwn ar ddyn. Edrychwn ar y cas allanol – y croen, yr esgyrn, cylchrediad y gwaed, curiad y galon, yr ymysgaroedd a chyd-berthynas y rhain i gyd. A beth am y gallu i feddwl a'r gallu i wahaniaethu rhwng y da a'r drwg? Dowch â'r chwyddwydr yn agosach. Edrychwch ar y mân greaduriaid sy'n mynd a dod yn nyfnderoedd y moroedd a rhai ohonyn nhw byth yn gweld golau ddydd. Edrychwch ar y cyd-berthynas rhyngddyn nhw. Ai damwain ydi'r cyfan? Oes yna drefn a phwrpas? Cyhoeddi mae'r Beibl – mai y tu ôl i'r cyfan y mae Duw. "Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a'r ddaear" Genesis 1: 1. Does dim "os" nac "ond" yng ngeirfa awdur llyfr cyntaf y Beibl – 'creodd Duw'.

Llais 2

Y dyddiau hyn mae rhai gwyddonwyr yn dadlau'n ffyrnig yn erbyn cred y Cristion ac yn arbennig yn erbyn y dehongliad llythrennol o'r creu a geir yn llyfr Genesis. Mewn rhannau o America mae'r cweryla a'r dadlau ar ei ffyrnicaf. Mae yna ysgolion a cholegau mewn rhai o'r taleithiau sydd wedi penderfynu nad ydyn nhw'n crybwyll gair am esblygiad a'r modd y dehonglodd Charles Darwin ddatblygiadau yn hanes ymddangosiad dyn ar y ddaear. Dowch i ni ofyn felly – a fedrwch chi arddel y ffydd Gristnogol a chredu mewn esblygiad, neu ydyn ni'n sôn am ddau begwn nad oes modd eu hasio at ei gilydd?

Eto, dyma fynd yn ôl i'r cwestiwn 'Sut' a 'Pham'? Mae theori esblygiad yn dangos i ni sut mae pwrpas creadigol Duw wedi ei gyflawni yn hanes bywyd ar y ddaear. Mae'n debyg y byddai Duw wedi gallu creu popeth yn barod o'r dechrau. Ond a fyddech chi'n cytuno fod esblygiad yn dangos rhywbeth sy'n llawer mwy diddorol a mwy astrus na hyn? Mae bywyd sy'n esblygu ac yn newid yn dangos fod y Creawdwr yn dal i greu. Nid rhywbeth a ddigwyddodd unwaith ac am byth, yn nechrau amser, ydi'r creu ond proses sy'n dal i ddigwydd. Erbyn meddwl, onid dyma'r ffordd, y ffordd fwyaf effeithiol y bydden ni'n disgwyl i Dduw fynd ati? Nid clapio'i ddwylo yn null y consuriwr a gwneud i bethau ddigwydd. Mae'r Duw sy'n gariad, yn amyneddgar ac yn fwy dirgel ei ffordd, yn dal i greu ac yn weithredol yn ei fyd

heddiw. Oni fedr gwyddoniaeth fyw efo'r ffordd yma o amgyffred Duw yn ei fyd yn weithredol ac yn dal i greu?

Llais 3.
Ond er gwaetha consýrn a chariad Duw tuag atom, mynnu mynd yn groes mae dyn. Mae'r darlun a geir yn llyfr Eseia yn ddarlun byw iawn o'n planed y dyddiau hyn:

"Gwywodd y ddaear a chrino,
dihoenodd y byd ac edwino,
dihoenodd uchelfeydd y ddaear.
Halogwyd y ddaear gan ei
phreswylwyr,
am iddynt dorri'r cyfreithiau, newid y
deddfau
a diddymu'r cyfamod tragwyddol".

Dydi dyn ddim yn barod i chwarae ei ran fel stiward cyfrifol. Dydio ddim yn barod i gyd-weithio â Duw i gadw trefn ar y ddaear. Erbyn hyn mae yna dermau newydd am y galanastra mae dyn wedi'i greu. Dyma rai o'r termau newydd:

Glaw asid – cydadwaith o'r lleithder a'r swlphwr diocsid sy'n dod o losgi glo, olew a nwy a hwn yn ei dro yn disgyn gyda'r glaw o'r awyr.

Chlorofflorogarbonau – cemegau o waith dyn sy'n cael eu defnyddio mewn sawl cynnyrch modern, er enghraifft cemegau i oeri rhewgelloedd.

Effaith Tŷ Gwydr – y broses o gynhesu'r ddaear oherwydd bod mwy o rai nwyon na'i gilydd. Mae'r nwyon hyn yn union fel gwydr y tŷ gwydr, yn cadw'r gwres rhag mynd allan. Rhai o'r nwyon hyn ydi carbon diocsaid a'r nwy methane.

Mae gwyddonwyr yn darogan y bydd y cynhesu byd eang wedi gwneud niwed mawr i'r byd ymhen llai na chan mlynedd. Beth fydd y dyfodol tybed?
Lefel y môr yn codi a thirwedd isel yn cael ei foddi.

Rhannau o'r byd yn troi'n grastiroedd.
Y tymheredd yn codi fel y bydd byw mewn rhannau o'r blaned yn annioddefol.
Glaw a gwyntoedd yn dod yn fwy grymus.
Mae'r darlun ar gyfer y dyfodol yn un brawychus.

Gweddi:

Maddau, i ni Arglwydd y Cread,
am y trachwant sy'n difetha yfory er mwyn i ni gael diddanwch a chysur heddiw,
am y diogi sy'n atal a rhwystro er mwyn i ni gael byd braf heddiw,
am y diofalwch sy'n llygru yfory er mwyn i ni gael esmwythdra heddiw,
am yr anghyfiawnder sy'n amddifadu yfory er mwyn cyfoethogi ein byd heddiw,
am y ffolineb sy'n anghofio yfory a byw yn unig er mwyn heddiw a'i bleserau.
Arglwydd heddiw, yfory ac yn dragywydd, heria ni yn awr i newid ein hagwedd a byw heddiw gan baratoi ar gyfer yfory. Amen.

Cwestiynau i'w trafod:

Ydych chi'n credu fod penodau cyntaf llyfr Genesis yn benodau y dylen ni eu trafod heddiw? Onid ydi gwyddoniaeth wedi dangos darlun gwahanol i ni?

Mae rhai pobl yn credu na fedr dyn ddadwneud yr hyn mae Duw wedi'i gyflawni yn ei greadigaeth. Beth yw eich barn chi?

Ydi theori esblygiad yn faen tramgwydd i chi? Sut ydych chi'n dehongli'r theori hon?

Pa gamau ydych chi fel (a) unigolyn (b) eglwys yn eu cymryd i ddiogelu'r blaned?

Fyddech chi'n dweud fod effeithiau cynhesu byd-eang yn digwydd yma yng Nghymru'r dyddiau hyn? Mae rhai gwyddonwyr yn dweud mai'r

haul, a dim arall, sy'n gyfrifol am y cynhesu byd-eang. Beth yw eich barn chi am hyn?

Cyfnod i fyfyrio:

O, yr un goruchaf, yr Hollalluog, Arglwydd Dduw
daionus, i ti y perthyn mawl, gogoniant,
anrhydedd, a phob bendith!
Moliannus fyddo fy Arglwydd Dduw am ei holl
greaduriaid, yn enwedig am ein brawd,
yr haul, sy'n dwyn y dydd atom,
a phob goleuni; prydferth yw ef,
yn disgleirio'n ysblennydd iawn;
mae'n dy arddangos di i ni O Dduw!
Moliannus fyddom fy Arglwydd am ein chwaer
y lleuad, ac am y sêr, a osododd
yn glir ac yn brydferth yn y nef.
Moliannus fyddo fy Arglwydd am ein brawd
y gwynt, am yr aer a'r cymylau,
yr ysbeidiau llonydd a phob tywydd
sy'n cynnal bywyd ymhob creadur.
Moliannus fyddo fy Arglwydd am ein chwaer, y dŵr,
sy'n ddefnyddiol iawn i ni,
sy'n ostyngedig, gwerthfawr a glân.
Moliannus fyddo fy Arglwydd am ein brawd, y tân,
trwy yr hwn y rhoddi oleuni inni
yn y tywyllwch; mae ef yn llachar a
phleserus, yn nerthol a chryf.
Moliannus fyddo fy Arglwydd am y ddaear,
ein mam, sy'n esgor ar amryliw flodau
a ffrwythau, a phorfa.
Moliannus fyddo fy Arglwydd am bawb sy'n
maddau i'w gilydd er mwyn ei gariad ef,
sy'n dioddef gwendid a helbulon; bendigedig
yw'r rhai a ddioddefa'n dangnefeddus,
oherwydd fe roddi di, y Goruchaf, goron iddynt.
Moliannus fyddo fy Arglwydd am ein chwaer,

marwolaeth y corff, na all unrhyw un ddianc
rhagddi. Gwae yr hwn sy'n marw mewn
pechod marwol!
Bendigedig yw'r rhai a geir yn rhodio yn
ôl dy ewyllys, oherwydd
ni fydd gan yr ail farwolaeth unrhyw rym
i'w niweidio hwy.
Molwch a bendithiwch yr Arglwydd
rhowch ddiolch iddo
a gwasanaethwch ef mewn
gostyngeiddrwydd mawr.

Catingl yr Haul. Ffransis o Assisi.

Emyn: 103 Caneuon Ffydd.

Y Fendith:

Boed i ni drwy'r oedfa hon
gael gweledigaeth newydd o'th greadigaeth,
a boed i ni
benderfynu heddiw
ein bod am fod yn stiwardiaid
teilwng yn dy fyd. Amen.